UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Gwybodaeth Undebol

Datblygiadau Cenedlaethol

2009-10

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Datblygiadau Cenedlaethol 2009-10

Dyma grynodeb o brif ddatblygiadau cenedlaethol byd addysg ar gyfer Cynadleddau Sir UCAC ym mis Ionawr-Chwefror 2010.

1. Diweddariad Gwleidyddol

Gweinidogion Addysg

- Leighton Andrews (Rhondda) yw'r Gweinidog newydd, yn lle Jane Hutt
- APADGO yw enw'r adran addysg bellach, yn hytrach nac APADGOS (*DCELL* yn hytrach na *DCELLS*)
- Mae'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau bellach yn Ddirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths (Wrecsam), yn lle John Griffiths) ac wedi symud o APADGO i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, sef adran Ieuan Wyn Jones
- Mae swydd Dirprwy Weinidog newydd wedi'i greu – y Dirprwy Weinidog dros Blant, sef Huw Lewis (Merthyr Tudful)

2. Materion ar frig yr agenda

Ariannu

Bu ymgyrchu cyson gan UCAC drwy gydol 2009, dros ariannu teg a digonol ar gyfer y system addysg:

- ar gyfer gofynion sylfaenol, e.e. adeiladau, adnoddau, cyflogau
- i weithredu gofynion newydd/ychwanegol Llywodraeth y Cynulliad, e.e. Y Cyfnod Sylfaen, prin gyflenwi

Mae Carwyn Jones, Prif Weinidog newydd Cymru, wedi addo cau'r bwlch cyllido addysg y pen rhwng Cymru a Lloegr, dros amser (amcangyfrifir bod bwlch o £500 y pen rhwng disgyblion y ddwy wlad); mae rhai yn amau a yw hyn yn bosib mewn gwirionedd yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd; bydd UCAC yn parhau i bwyso.

Addysg 14-19

Ymgyrchodd UCAC yn ffyrnig, ac yn llwyddiannus, i sicrhau bod y *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* yn cynnwys cyfeiriad penodol at addysg cyfrwng Cymraeg; o ganlyniad, rhaid i AALlau 'hyrwyddo mynediad at, ac argaeledd cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg'; mae UCAC yn parhau i gydweithio gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y Rheoliadau a Chanllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r Mesur yn cymryd i ystyriaeth materion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r agenda 'Trawsnewid' yn parhau'n destun pryder mawr i UCAC:

- am nad yw'n ymddangos ei fod yn cymryd materion cyfrwng Cymraeg o ddifrif, e.e. Dinefwr, RhCT[1]
- am ei fod yn golygu ad-drefnu ysgolion a cholegau ar raddfa fawr iawn (gan gynnwys y sector gynradd, ac addysg 11-14), gan gynnwys pwysau i uno a ffederaleiddio sefydliadau, a hynny, yn aml, ar ormod o frys

Bydd UCAC yn parhau i ymgyrchu'n gryf yn y maes hwn yn 2010, gan gydweithio â mudiadau eraill megis CYDAG a RhAG; mae'n bosib iawn y byddwn yn gofyn am gefnogaeth aelodau wrth weithredu.

Bygythiad i swyddi addysgu

O ganlyniad i'r uchod, mae'n debygol y bydd bygythiadau i swyddi addysgu yn 2010. Os felly, mae Swyddogion Maes UCAC yma i gynnig cyngor a chefnogaeth.

3. Datblygiadau pwysig eraill

Prin Gyflenwi (*Rarely Cover*) [Taflen Gwybodaeth UCAC ar gael]

Daeth rheolau newydd ynglŷn â 'phrin gyflenwi' i rym yn ystod 2009 sy'n golygu na ddylai athrawon orfod cyflenwi dros gyd-athrawon ond yn anfynych iawn, a hynny mewn amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld. Bellach, rhaid bod gan bob ysgol weithdrefnau i sicrhau bod athrawon cyflenwi'n cael eu defnyddio ar gyfer bob absenoldeb y gellir ei ragweld.

Mae sgil-effeithiau sylweddol wedi bod i'r rheolau newydd hyn, gan gynnwys gwaethygiad i amodau gwaith athrawon mewn rhai ysgolion, dirywiad yn yr ewyllys da oedd yn bodoli rhwng penaethiaid ac athrawon yn ymwneud ag absenoldebau a chyflenwi, a phroblemau ariannol i ysgolion. Mae UCAC wedi

[1] Mae Rhondda Cynon Taf wedi gosod cynnig 'Trawsnewid' gerbron a fyddai'n cau pob Chweched Ddosbarth yn yr Awdurdod, gan gynnwys y rheiny yn y pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, ac yn agor Coleg Trydyddol ar 3 campws yn eu lle.

ymgyrchu'n gyson dros ariannu'r system newydd yn ddigonol, ac mae'r undeb ar hyn o bryd yn casglu tystiolaeth am effeithiau'r rheolau ar aelodau ar hyd a lled y wlad – rhowch wybod inni am eich profiadau chi. Bydd yn debyg o fod yn destun trafod brwd yn y Gynhadledd Genedlaethol.

Mae cyfraith newydd ei basio yn San Steffan sy'n golygu ei bod hi'n ofyniad statudol i bob ysgol gydymffurfio â holl ofynion y *School Teachers' Pay and Conditions Document* – h.y. mi fydd yn anghyfreithlon i beidio gweithredu yn unol â gofynion y ddogfen (gan gynnwys prin gyflenwi). Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n llunio proses a fydd yn sicrhau hyn, ac yn trafod ymhellach gyda'r undebau yn ystod y misoedd nesaf.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus / Rheoli Perfformiad / Safonau Proffesiynol

Mae toriad anferthol (o £2.9miliwn i £0.9miliwn) yn y gyllideb sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus gyda ffocws unigol. Nid yw'r gyllideb wedi'i ail-leoli. Yn ogystal, mae coffrau'r Gronfa Ysgolion Gwell wedi gweld lleihad o £7m, felly does dim amheuaeth y bydd prinder arian ar gyfer DPP yn 2010-11. Mae gwaddol gan y Cyngor Addysgu i dalu am weddill cyrsiau dwy a tair blynedd sydd eisoes wedi'u cychwyn. Yn y dyfodol bydd DPP yn gysylltiedig â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (gweler isod).

Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n cynnal adolygiad o drefniadau Rheoli Perfformiad, Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Safonau Proffesiynol. Gallwn ddisgwyl newidiadau yn y meysydd hyn. Mae UCAC eisoes wedi cwrdd â'r tîm sy'n arwain yr adolygiad, ac mi fydd cyfleoedd pellach i ddylanwadu, felly os oes gennych unrhyw sylwadau neu brofiadau i'w rhannu, rhowch wybod.

Estyn

Mae Estyn wedi llunio Fframwaith Arolygu newydd sy'n cael ei beilota ar hyn o bryd, ac a ddaw'n weithredol o fis Medi 2010 ymlaen. Dyma rai o'r prif newidiadau:

- 4 wythnos o rybudd
- Arolygon 2-5 diwrnod, yn dibynnu ar faint yr ysgol
- Ni fydd y Tîm yn dod i wylio pob athro'n dysgu – yn enwedig yn yr uwchradd (h.y. dibynnu ar faint yr ysgol)
- Arolygwyr Estyn yn unig o 2012 ymlaen; cael gwared â chontractwyr preifat dros gyfnod o ddwy flynedd
- Adroddiadau byrrach
- Dim defnydd o'r gair 'dwyieithrwydd' yn y fframwaith newydd, yn hytrach 'safonau yn yr iaith Gymraeg'

Os oes gennych unrhyw brofiad o'r arolygiadau peilot, rhowch wybod. Bydd Estyn yn gwneud addasiadau i'r Fframwaith newydd rhwng nawr a'r gwanwyn, yng ngoleuni profiadau'r arolygiadau peilot; gall UCAC godi unrhyw faterion o bryder.

Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (*School Effectiveness Framework*)

Dyma flaengaredd diweddaraf Llywodraeth y Cynulliad – er, yn ôl swyddogion APADGO – "The SEF is not an initiative, it's a way of working" (!). Nid yw'n gwbl glir eto beth fydd ei union natur, ond mae'n ymddangos ei fod yn agenda eang a hollgynhwysol. Dylai pawb fod yn barod i glywed mwy am hwn yn ystod y flwyddyn...

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
Rydym yn disgwyl cyhoeddiad y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ei ffurf derfynol yn y gwanwyn. Mae'n bosib y bydd rhywfaint o oedi oherwydd y newid Gweinidog.

Y Coleg Ffederal
Newyddion da! Mae cynlluniau ar gyfer Coleg Ffederal – i ddarparu cyrsiau Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg – yn symud yn eu blaenau. Trwy'r Sefydliadau Addysg Uwch presennol y bydd y Coleg Ffederal yn gweithio, a bydd y myfyrwyr cyntaf yn cael eu cofrestru ym mis Medi 2011. Bydd Bwrdd Rheoli cysgodol yn cael ei ffurfio yn gynnar yn 2010.

Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-Dechnoleg [Taflen Gwybodaeth UCAC ar gael]

Gair o gyngor i bawb:

- byddwch yn ofalus!
- meddyliwch ddwywaith a theirgwaith cyn rhoi sylwadau a lluniau ar Facebook
- ystyriwch bod popeth ar y we yn ddatganiad cyhoeddus – ydych chi'n fodlon i bawb clywed / gweld?

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com